

DEDDF PRIFFYRDD 1980

CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD (ADEILADU PONT TONFANNAU) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r Cynllun uchod, a wnaed gan Gyngor Gwynedd o dan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980. Fel y cadarnhawyd, mae'r Cynllun yn awdurdodi'r Cyngor i ddarparu pont geffylau, sy'n ymgorffori llwybr troed a llwybr beiciau, dros Afon Dysynni o Sandilands Road, Tywyn i Donfannau, Gwynedd.

Mae'r cynllun yn dechrau o bwynt ar lan ogleddol aber Afon Dysynni, sydd â'r cyfesurynnau 256661Dn, 302898G, ac yn dod i ben ar bwynt ar y lan ddeheuol, sydd â'r cyfesurynnau 256687Dn, 302944G. Cyfeirnod Map yr Arolwg Ordnans yw SH50DDdn. Bydd y bont fwy neu lai ar safle hen Bont Feili'r Fyddin a ddymchwelwyd ddiwedd y 70au/ddechrau'r 80au.

Gellir edrych ar gopiau o Offeryn Cadarnhau'r Cynllun sy'n dwyn yr enw "Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012 2013" ynghyd â chopiau o'r planiau perthnasol yn rhad ac am ddim ar bob adeg resymol yn Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon LL55 1SH ac yn Swyddfeydd yr Arolygiaeth Gynllunio, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gellir prynu copiau o Offeryn Cadarnhau'r Cynllun sy'n dwyn yr enw "Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012 2013", ac sy'n cynnwys copi o'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd, gan lyfrwerthwyr neu'n uniongyrchol gan y Llyfrfa Cyf.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Cynllun, ac sy'n dymuno herio ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau Deddf Priffyrdd 1980, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw ofyniad yn y Ddeddf, neu ag unrhyw reoliadau a wnaed odani, wneud cais i'r Uchel Lys cyn pen 6 wythnos ar ôl 25 Gorffennaf 2013, yn gofyn am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Cynllun, yr Offeryn Cadarnhau a'r Hysbysiad Cyhoeddus hwn yn

www.cymru.gov.uk

(legislation/subordinate/localstat/HighwaysActLine
Orders)

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad
hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D BURNELL

Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru